Nodiadau Cyfarwyddyd

ar gyfer cwblhau

Hunanwerthusiad AGChY

Tachwedd 2010
Diben

Bydd y ddogfen hon o gymorth i ysgolion gwblhau Hunanwerthusiad blynyddol y cynllun AGChY. Mae'n ystyried pob cwestiwn allweddol a'r ffactorau sy'n effeithio ar addysg gorfforol a chwaraeon ysgol o safon mewn perthynas â fframwaith arolygu Estyn. Drwy ateb cwestiynau hunanwerthuso'r cynllun AGChY, bydd ysgolion yn gallu canfod cryfderau eu darpariaeth addysg gorfforol a chwaraeon ysgol a'r meysydd i'w datblygu. O'r wybodaeth hon, gall ysgolion flaenoriaethu eu cynlluniau gweithredu er mwyn codi safonau'r addysgu a'r dysgu mewn addysg gorfforol a chyfrannu at wella cynlluniau pontio'r clwstwr statudol. Yn hytrach na chymryd lle'r systemau hunanwerthuso presennol, dylai'r broses hon wella ac ategu'r arferion presennol. Er mwyn paratoi ar gyfer arolwg gan Estyn neu adolygiad gan yr awdurdod lleol, dylai ysgolion edrych ar y canlynol:

- fframwaith arolygu Estyn sydd i'w ganfod yng ngwefan Estyn - www.estyn.gsi.uk
- y llawlyfr hunanwerthuso, sydd hefyd yng ngwefan Estyn
- AG a chwaraeon ysgol o safon uchel http://www.teachernet.gov.uk/_doc/6254/HighQualityLeaflet.pdf
- y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion http://www.sefcymru.org/eng/sef-p2-home.htm
- cyfarwyddyd addysg gorfforol ar gyfer ysgolion

http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/curriculumassessment/arevisedcurriculumforwales/nationalcurriculum/physicaleducationnc/;jsessionid=69rLLPLXGTLKpXYfhC16QLyLcm6q0XfxSnJlLLJ9hMTfLmypKw7b!81960802?lang=en

Prif nod y prosiect AGChY yw codi safonau'r addysgu a'r dysgu mewn addysg gorfforol. Mae'r mentrau/adnoddau/cyfleoeddd AGChY y tynnir sylw atynt yn y cyfarwyddyd hwn wedi'u cynllunio er mwyn cyrraedd y nod hwn. Mae holl fentrau'r cynllun AGChY wedi'u datblygu gan ymgynghori â'r prif randdeiliaid yn y byd addysg gorfforol: LICC, Estyn, DCELLS, ac ymgynghorwyr AG yr Awdurdod Lleol, Sefydliadau Addysg Uwch, athrawon a disgyblion. Mae pob cyfle i ddatblygu'n broffesiynol sydd wedi'i ddarparu gan y cynllun AGChY wedi'i gynllunio i gydymffurfio â'r safonau DPP a'r Cod Ymarfer mewn AG. Drwy weithredu'r mentrau hyn, bydd ysgolion nid yn unig yn codi'r safonau mewn addysg gorfforol a chwaraeon ysgol ond hefyd yn gwneud cynnydd tuag at sicrhau'r arfer da a gafodd ei ddatgan gan Estyn a dyfarniad Activmarc Cymru. Dyfernir y nod ansawdd hwn i ysgolion sy'n gallu dangos ymroddiad i ddatblygu AG a Chwaraeon Ysgol o safon uchel i bob un plentyn.

Pan fydd ysgol yn ymroi i wneud cais am Ddyfarniad Activmarc Cymru, mae'n cymryd rhan mewn proses o hunanwerthuso sy'n canfod y cryfderau a'r meysydd i'w datblygu. Mae'r ffurflen gais wedi cael ei llunio yn unol â Fframwaith Estyn, yn seiliedig ar y tri chwestiwn allweddol. Mae'r broses werthuso'n creu cyfoeth o wybodaeth y dylid ei defnyddio fel sail ar gyfer y gwaith cynllunio yn y dyfodol.

Proses hunanwerthuso'r cynllun AGChY a'i chysylltiad â gwaith cynllunio'r canolfannau datblygu

Dylid cynnal hunanwerthusiad AGChY ar y dechrau wrth sefydlu canolfan ddatblygu newydd ac yna hunanwerthuso bob blwyddyn. Dylai ysgolion y canolfannau datblygu dderbyn gwybodaeth am y broses a chael eu cyflwyno i'r ffurflenni a'r nodiadau cyfarwyddyd yng nghyfarfodydd y bartneriaeth. Dylai ymgynghorwyr AG, swyddogion gwella ysgol neu ymgynghorwyr fod yn rhan o'r broses hon. Unwaith mae'r ysgolion wedi cynnal eu gwerthusiad eu hunain, fel rheol bydd y Cydlynydd AGChY ac arweinydd y bartneriaeth yn cydweithio er mwyn datgan blaenoriaethau cyffredin ar gyfer gweithredu yn y teulu o ysgolion yn y ganolfan ddatblygu. Yna, gellir cyflwyno'r rhestr hon o flaenoriaethau ger bron y cyfarfod nesaf o'r bartneriaeth ble cytunir ar restr fer o flaenoriaethau/ targedau. Yna, defnyddir y blaenoriaethau allweddol hyn i lunio cynllun ar gyfer y ganolfan ddatblygu. Os yw ysgolion wedi datgan blaenoriaethau ar gyfer gweithredu nad ydynt yn rhan o'r cynllun datblygu, yna mae'n rhaid iddynt wneud penderfyniad am statws y blaenoriaethau hyn yn eu cynlluniau datblygu ysgol eu hunain. Gellir sefydlu cymuned ddysgu broffesiynol (CDdB) yn y ganolfan ddatblygu i edrych ar y blaenoriaethau sydd wedi'u datgan. Yn yr un modd, ar gyfer blaenoriaethau ysgolion unigol neu flaenoriaethau perthnasol i griw bach o ysgolion, gellir sefydlu cymunedau dysgu proffesiynol i geisio canfod atebion i'r meysydd sydd wedi'u datgan fel rhai angen eu gwella.

Y cyfarwyddyd

Ar gyfer pob cwestiwn allweddol, mae'r agweddau a ganlyn wedi'u cynnwys: <u>- arfer da mewn addysg gorfforol a chwaraeon ysgol (AGChY)</u>

Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys elfennau o arfer da sydd wedi'u canfod mewn ffynonellau fel: cyfarwyddyd pwnc Estyn, dogfennau 2005 DFES, AfPE Cymru ac ymgynghorwyr Addysg Gorfforol.

<u>- Cwestiynau i'w hystyried</u>

Mae'r adran hon yn holi'r cwestiynau y dylid eu hystyried wrth edrych ar y cwestiwn allweddol. Y diben yw procio'r meddwl.

<u>Ble mae cael hyd i dystiolaeth</u>

Mae'r adran ar ddiwedd y ddogfen yn rhestru rhai o'r ffynonellau tystiolaeth y gellid eu hystyried er mwyn helpu i ddatgan safon y ddarpariaeth. Nid yw'r rhestr yn nhrefn blaenoriaeth nac yn hollgynhwysfawr. Nid oes raid i ysgolion ganfod tystiolaeth o bob ffynhonnell; dim ond canllaw yw'r rhestr.

Mae'r cyfarwyddyd hwn yn dangos sut mae AG a chwaraeon ysgol yn cyfrannu at hunanwerthusiad yr ysgol gyfan. Gyda lles yn elfen bwysig o broses arolygu ysgolion erbyn hyn, mae cyfraniad AGChY at hyn yn enfawr a dylid ei bwysleisio.

Cwestiwn Allweddol 1 – Pa mor dda mae'r dysgwyr yn cyflawni ac yn gwneud cynnydd mewn Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol?

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r canlyniadau? Safonau

- Canlyniadau a thueddiadau mewn perfformiad
- Safonau grwpiau o ddysgwyr
- Cyflawniad a chynnydd mewn dysgu
- Sgiliau
- Yr iaith Gymraeg

Arfer Da mewn AGChY	Cwestiynau i'w hystyried
Chwilio am ddysgwyr sy'n gallu: - cyrraedd safonau priodol i'w hoedran a'u gallu; - datgan eu cryfderau, gwybod beth sydd raid iddynt ei wneud i wella a phennu targedau priodol ar gyfer gwella; - gwneud cynnydd da yn eu dysgu; - deall beth a ddisgwylir ganddynt; - meddwl yn effeithiol i ddatrys problemau a gwneud penderfyniadau; - sicrhau canlyniadau dysgu da; - dysgu'n annibynnol; - ymateb yn bositif i sawl math o her; - gweithio ar eu pen eu hunain, mewn parau ac mewn grwpiau bychain yn effeithiol; - holi cwestiynau perthnasol; - mabwysiadu sawl rôl a chyfrifoldeb e.e. perfformiwr, arsylwr, arweinydd; - defnyddio terminoleg briodol; - dysgu gwybodaeth a sgiliau newydd yn y pedwar maes profiad a'u defnyddio mewn sefyllfaoedd newydd - defnyddio'r iaith Gymraeg mewn AG	- A ydych yn maincnodi canlyniadau ac yn monitro tueddiadau? - Sut ydych yn gwybod pa mor dda ydych yn cyflawni mewn AG? - A yw'r dysgwyr yn cymryd rhan yn y gwaith o bennu targedau a gwerthuso perfformiadau? - A yw'r disgyblion mwy abl a thalentog yn cyflawni eu potensial? ADY, merched, bechgyn, grwpiau DLlE? - A yw'r disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn AG drwy'r cyfnodau allweddol? - A yw'r disgyblion yn defnyddio'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a ddysgwyd mewn un maes profiad mewn sefyllfa newydd? - A yw'r disgyblion yn cyflawni'n dda mewn cymwysterau sgiliau? A ddarperir cyfleoedd mewn AG i helpu i ennill y Fagloriaeth Gymreig? - Sut allwch chi ddangos datblygiad sgiliau ehangach y disgyblion drwy'r dysgu mewn AG? Sgiliau TGCh, sgiliau trefnu, sgiliau arwain? - A yw'r disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn eu gwersi AG?

Cwestiwn Allweddol 1 – Pa mor dda mae'r dysgwyr yn cyflawni'r canlyniadau lles drwy Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol?

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r canlyniadau? Lles

- Agweddau at gadw'n iach a diogel

- Cyfranogiad a phleser mewn dysgu
- Cyfranogiad cymunedol a gwneud penderfyniadau
- Sgiliau cymdeithasol a bywyd

Arfer Da mewn AGChY	**Cwestiynau i'w hystyried**
Chwilio am ddysgwyr sy'n: - mwynhau dysgu, yn llawn diddordeb a chymhelliant; - deall sut allant fod yn iach a'r cyfraniad cadarnhaol y gall gweithgarwch corfforol rheolaidd ei wneud i'w hiechyd; - dangos cryfder, cyflymdra, stamina ac ystwythder digonol i gymryd rhan mewn amrywiaeth o wahanol weithgareddau; - ymwybodol o'u cryfderau a'u cyfyngiadau; - dangos hyder i ymuno mewn amrywiaeth o weithgareddau; - cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol rheolaidd yn yr ysgol ac mewn clybiau lleol; - gweithio'n gyfrifol; - perthnasu'n dda â'i gilydd ac ag oedolion; - parchu ei gilydd a'r athro; - ymddwyn yn dda; - profi llwyddiant; - dod â'r cit priodol yn rheolaidd ac yn cymryd rhan gyda diddordeb a brwdfrydedd; - dangos gonestrwydd a thegwch wrth gymryd rhan mewn chwaraeon; - cymryd rhan mewn chwe deg munud o weithgarwch bum gwaith yr wythnos; - teimlo'n iach a da amdanyn nhw eu hunain; - lleisio barn, cynnig syniadau a gwneud dewisiadau;	- A yw'r disgyblion yn deall pwysigrwydd bod yn egnïol am o leiaf 5 awr yr wythnos? - A ydych yn gwybod pa mor aml mae eich disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol? - A yw'r disgyblion i gyd yn cymryd rhan yn rheolaidd ac yn mwynhau eu dysgu mewn AG? - A yw'r disgyblion i gyd yn cael cyfle i wneud penderfyniadau am y gweithgareddau yr hoffent gymryd rhan ynddynt yn y ddarpariaeth gwricwlaidd ac allgyrsiol? - A oes gennych gyngor chwaraeon yn yr ysgol yn rhoi llwyfan i'r disgyblion wneud penderfyniadau am y gweithgaredau yn eu hysgol? - A oes gennych gynghorwyr (llysgenhadon arian) yn eich ysgol yn hyrwyddo cyfranogiad mewn chwaraeon? - A yw'r disgyblion yn gallu gwirfoddoli a helpu i gyflwyno gweithgareddau yn yr ysgol ac yn eu cymuned? - A ydych yn gallu dangos tystiolaeth o weithgareddau chwaraeon y mae eich disgyblion yn cymryd rhan ynddynt yn y gymuned? - A ydych yn gallu dangos sut mae AGChY yn cyfrannu at ddatblygu hunan-barch a hunanhyder y disgyblion? - A yw'r disgyblion i gyd wedi meithrin y sgiliau a'r hyder i fod yn egnïol wedi iddynt adael yr ysgol?

Cwestiwn Allweddol 2 – Pa mor dda ydym ni'n darparu ar gyfer AG a chwaraeon ysgol o safon uchel?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? Profiadau dysgu

- Diwallu anghenion y dysgwyr i gyd
- Darparu ar gyfer sgiliau
- Darpariaeth Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig
- Addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

Arfer Da AGChY	Cwestiynau i'w hystyried
Profiadau dysgu mewn AG a chwaraeon ysgol sy'n: - diwallu anghenion y dysgwyr i gyd; - ddigon eang a chytbwys; - hwylus i bob dysgwr gymryd rhan ynddynt; - adeiladu'n systematig ar yr wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau presennol wrth i ddisgyblion symud o flwyddyn i flwyddyn ac o un cyfnod allweddol i'r nesaf; - sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer datblygu sgiliau allweddol yn gydlynol; - rhoi digon o amser i'r disgyblion ddatblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth; - darparu cyfleoedd i sicrhau dyfarniadau a chymwysterau priodol; - hybu cyfleoedd tu allan i oriau, yn cynnwys gweithgareddau a chlybiau allgyrsiol, sy'n cyfrannu at y safonau y mae'r dysgwyr yn eu cyrraedd ac at eu datblygiad personol ehangach; - scirhau partneriaeth â'r rhieni, y gymuned ac ag ysgolion eraill a cholegau, er mwyn ehangu'r ystod o brofiadau dysgu; - bodloni gofynion y Cwricwlwm Cymreig; - darparu cyfleoedd i ddysgwyr fabwysiadu arferion gweithgarwch iach am oes; a - darparu i'r dysgwyr gyfleoedd i ddatblygu cyfrifoldeb a sgiliau arwain.	- Pa mor dda yw ein cynlluniau a'n polisïau AGChY am sicrhau bod y dysgwyr i gyd yn cael eu cymell i gymryd rhan mewn gweithgareddau heriol yn llawn brwdfrydedd a diddordeb? - Beth yw effaith ein systemau ar gyfer grwpio dysgwyr, gan roi ystyriaeth i wahaniaethu yn ogystal â chydbwysedd rhwng y rhywiau a maint dosbarthiadau? - Pa mor dda ydym ni am gofnodi cynnydd y dysgwyr? - A ydym yn effeithiol wrth feithrin a datblygu sgiliau'r disgyblion drwy ffurfio cysylltiadau ledled y meysydd profiad? - A ydym yn darparu cyfleoedd cyfartal i'r dysgwyr i gyd yn y gweithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol? - A yw'r ddarpariaeth y tu allan i oriau a'r gweithgareddau allgyrsiol yn cael effaith dda ar brofiadau a dysgu'r disgyblion? - I ba raddau mae'r gweithgareddau dysgu mewn AG yn diwallu anghenion y dysgwyr wrth ennill a defnyddio sgiliau, yn arbennig llythrennedd? - Pa mor dda ydym ni am fonitro'r ddarpariaeth o sgiliau drwy AGChY? - Pa mor dda ydym ni am adlewyrchu Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg a'r Dimensiwn Cymreig drwy AGChY? - Pa mor dda ydym ni am gyfrannu at ddealltwriaeth y dysgwyr o ddatblygiad cynaliadwy a'r wybodaeth, y ddealltwriaeth, y sgiliau, yr agweddau a'r gwerthoedd sy'n angenrheidiol er mwyn iddynt ddatblygu i fod yn ddinasyddion byd-eang?

Cwestiwn Allweddol 2 – Pa mor dda ydym ni am ddarparu ar gyfer AG a chwaraeon ysgol o safon uchel?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? Addysgu

- Amrywiaeth a safon y dulliau addysgu; ac
- Asesu'r dysgu a'r asesu ar gyfer dysgu

Arfer Da AGChY	Cwestiynau i'w hystyried
Athrawon AG sy'n: - dangos gwytbodaeth dda am eu pwnc ac yn fodelau rôl da; - creu awyrgylch cadarnhaol a chefnogol gan ddarparu ar gyfer y dysgwyr i gyd; - parchu'r dysgwyr a sefydlu perthynas broffesiynol sy'n deg a chlir; - rheoli dosbarthiadau'n effeithiol, trefnu'r dysgwyr yn dda a phennu disgwyliadau uchel; - rhannu'r canlyniadau dysgu gyda'r dysgwyr; - defnyddio amrywiaeth briodol o ddulliau dysgu; - gosod tasgau sy'n ysgogol, yn cymell ac yn darparu ar gyfer y dysgwyr i gyd, gan adeiladu ar wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth flaenorol; - pennu cyfyngiadau amser priodol ar gyfer tasgau; - sefydlu arferion gweithio diogel a helpu'r dysgwyr i asesu pob risg; - hybu gwelliannau drwy ymyrryd, defnyddio arddangosfeydd o safon, darparu adborth adeiladol a holi cwestiynau i herio'r dysgu; - defnyddio adnoddau priodol i gynorthwyo'r dysgwyr i weld nod penodol a gweithio tuag ato e.e. Tasgau Cyfoeth (o wefan NGfL), arddangosfa o arfer da, defnydd o TGCh; - ffurfio cysylltiadau â meysydd eraill y cwricwlwm, y gymuned a'r byd gwaith; - gwrando ar y dysgwyr a chynnig dewisiadau'n seiliedig ar eu hawgrymiadau; - cynllunio'r dysgu'n drwyadl gan ffurfio cysylltiadau â'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer AG neu faes llafur yr arholiadau; - darparu cyfleoedd cyfartal i ddysgwyr; - asesu, cofnodi ac adrodd yn ôl ar gynnydd; - cynnwys y dysgwyr yn y gwaith o asesu eu cynnydd eu hunain a phennu eu targedau eu hunain; a - meithrin sgiliau meddwl y dysgwyr drwy ganolbwyntio ar werthuso a datrys problemau.	- A yw ein disgwyliadau o'r holl ddisgyblion yn ddigon uchel? - A yw ein staff dysgu'n meddu ar yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddiweddaraf mewn AGChY? - Pa mor arloesol ydym ni yn ein dulliau dysgu ac addysgu mewn AG er mwyn cynnwys ac ysgogi'r dysgwyr a'u herio i gyflawni'n well? - Pa mor llwyddiannus ydym ni wrth ddarparu tasgau heriol a gweithgareddau dysgu sy'n diwallu anghenion y dysgwyr i gyd? - A ydym yn defnyddio staff cefnogi'r dysgu'n effeithiol? - Pa mor dda ydym ni am wella cyflawniadau'r disgyblion drwy asesu'r dysgu ac asesu ar gyfer dysgu?

Cwestiwn Allweddol 2 – Pa mor dda ydym ni am ddarparu AG a chwaraeon ysgol o safon uchel?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? Cefnogaeth a chyfarwyddyd gofal

- Iechyd a lles, yn cynnwys datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol;
- Gwasanaethau, gwybodaeth a chyfarwyddyd arbenigol;
- Trefniadau diogelu; ac
- Anghenion dysgu ychwanegol.

Arfer Da AGChY	Cwestiynau i'w hystyried
Mae'r ysgol yn sicrhau effeithiolrwydd iechyd, diogelwch a lles y dysgwyr mewn AG drwy gyfrwng y canlynol: - y trefniadau ar gyfer asesu'r risg mewn AG; - sicrhau bod yr amgylchedd ffisegol (y cyfleusterau a'r adnoddau) yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd a'u cynnal a'u cadw mewn cyflwr da ac yn briodol ar gyfer y gweithgareddau y cymerir rhan ynddynt; - cynnwys y dysgwyr i gyd mewn gweithgarwch corfforol rheolaidd; - annog bwyta'n iach yn yr ysgol a chyswllt â gweithgarwch corfforol; - meithrin a datblygu lefelau uchel o hunan-barch a hunanhyder ymhlith y dysgwyr i gyd; - defnydd o asiantaethau allanol i hybu gweithgarwch corfforol iach e.e. rhieni, gofalwyr a gweithwyr addysgol proffesiynol eraill; - deall effeithiau ymarfer ar y corff; - sefydlu cyfarwyddyd clir ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant.	- A yw ein polisïau'n effeithiol, gyda threfniadau priodol ar gyfer hybu amddiffyn plant a byw'n iach, yn cynnwys lles emosiynol a chorfforol y dysgwyr? - Pa strategaethau a ddefnyddir gennym i helpu'r dysgwyr i reoli eu teimladau a datblygu hunanymwybyddiaeth a hunan-barch? - Sut rydym yn sicrhau barn y dysgwyr a'r rhieni/gofalwyr? - A yw ABaCh yn sail i'r ddarpariaeth AGChY? - A yw'r dysgwyr yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau AGChY? A yw hyn yn cael ei adlewyrchu yn nifer y disgyblion sy'n mynychu gweithgareddau chwaraeon allgyrsiol? - A ydym yn cyfrannu'n dda at y gymuned leol drwy gyfrwng ein gweithgareddau chwaraeon allgyrsiol? - A oes gennym dystiolaeth glir o weithdrefnau priodol ar gyfer cynllunio gweithgareddau oddi ar y safle drwy gyfrwng y cydlynydd ymweliadau oddi ar y safle? - Pa mor dda ydym ni am ddefnyddio gwybodaeth wedi'i chyhoeddi mewn perthynas â'n cynnydd yn y cyswllt hwn e.e. adroddiadau arolygon blaenorol, canlyniadau arolygon Chwaraeon Cymru ar gymryd rhan? - A ydym yn sicrhau bod y defnydd o gefnogaeth arbenigol drwy gyfrwng asiantaethau allanol yn effeithiol a chydlynol? - A oes gennym bolisïau a gweithdrefnau priodol yn eu lle i sicrhau cefnogaeth o safon gan wirfoddolwyr, hyfforddwyr ac asiantaethau allanol eraill sy'n cyfrannu at AGChY gwricwlaidd neu allgyrsiol?

Cwestiwn Allweddol 2 – Pa mor dda ydym ni am ddarparu AG a chwaraeon ysgol o safon uchel?	
Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? Amgylchedd dysgu • Ethos, cydraddoldeb ac amrywiaeth; ac • Amgylchedd ffisegol.	
Arfer Da AGChY	**Cwestiynau i'w hystyried**
Mae'r ysgol yn rhoi cefnogaeth effeithiol i anghenion unigol mewn AGChY drwy gyfrwng y canlynol; - dulliau dysgu a gyfatebir i anghenion; - defnydd da o gynorthwywyr i gefnogi'r dysgwyr; - mynd ati i gynnwys y rhai nad ydynt am gymryd rhan yn y dysgu mewn ffordd adeiladol; - defnyddio gweithgareddau priodol ar gyfer dysgwyr ag anghenion penodol; - darparu i'r dysgwyr gyfleoedd a mynediad cyfartal i ystod o brofiadau dysgu; - defnyddio adnoddau ac offer priodol, wedi'u cynnal yn dda; - herio'r abl a'r talentog; - asesu anghenion y dysgwyr; - cyfeirio at gyfleoedd chwaraeon cymunedol; - amgylchedd dysgu bywiog sy'n ddiogel; a - defnyddio gofod awyr agored i wella'r dysgu ac i helpu gyda gwneud i bawb deimlo'n dda.	- A ydym yn ystyried ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth cefndiroedd ein dysgwyr ac yn gweithredu'n briodol ynghylch yr wybodaeth hon? - A yw'r cwricwlwm AG a'r rhaglen allgyrsiol yn darparu mynediad cyfartal? - A oes gennym ystod da o adnoddau sy'n cyfateb yn dda i anghenion y dysgwyr? - A ydym yn cadw cofnodion am gynnal a chadw offer? - A yw'r cyfleusterau'n darparu amgylchedd dysgu ysgogol i gefnogi'r addysgu a'r dysgu?

Cwestiwn Allweddol 3 – Pa mor effeithiol yw'r arwain a'r rheoli mewn Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arwain a'r rheoli? Arwain

- Cyfeiriad strategol ac effaith yr arwain;
- Llywodraethwyr neu gyrff goruchwylio eraill; a
- Bodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol.

Arfer Da AGChY	Cwestiynau i'w hystyried
Penaethiaid ac Arweinwyr Pwnc AG: - rhoi arweiniad clir, hybu safonau uchel a sicrhau proffil amlwg i AG yn yr ysgol; - swyddogaethau, cyfrifoldebau a threfniadau rheolaeth llinell clir; - rhoi synnwyr o bwrpas sy'n hybu ac yn cynnal gwelliant; - pennu disgwyliadau uchel ar gyfer cyflawni, sy'n heriol a realistig, mewn partneriaeth â'r staff ac ag eraill sy'n gweithio â hwy; - sefydlu a chydlynu tîm gyda gwerthoedd, amcanion a dibenion cyffredin; - annog unigolion i gyfrannu at y dibenion cyffredin; - datblygu'r gallu i adlewyrchu'n feirniadol ar yr hyn sy'n cael ei wneud a sut i'w wella; - deall ac yn ymroddedig i'w rôl; - rheoli eu rôl a'u cyfrifoldebau'n effeithiol; - rheoli a gwella perfformiad y staff unigol, y timau a (lle bo hynny'n briodol) yr adrannau; - datgan gweithdrefnau priodol ar gyfer targedu datblygiad staff, i gael effaith gadarnhaol ar safonau'r dysgu a'r addysgu mewn AG; - ystyried blaenoriaethau cenedlaethol, yn cynnwys SEF, saith amcan craidd LlCC; - ystyried blaenoriaethau lleol a'r clwstwr; - ystyried blaenoriaethau lles cenedlaethol; Creu Cymru Egnïol; Newid Am Oes; a - pob her leol, trefniadau consortiwm, cynllun CYP	- A oes gan yr ysgol weledigaeth ar gyfer AGChY? A yw'r disgyblion yn rhan o'r weledigaeth hon? A yw'n cael ei rhannu â phartneriaid? - A yw'r ysgol yn herio pawb i fyw bywydau egnïol? - A yw'r uwch-reolwyr yn annog i gyflesuterau'r ysgol fod ar gael ar gyfer y gymuned gan gynnig cyfleoedd gweithgarwch y tu allan i oriau ysgol? - A oes aelod o'r uwch-reolwyr yn gyfrifol am ddarparu ar gyfer anghenion gweithgarwch y dysgwyr i gyd? - A yw'r staff i gyd yn cael cyfle i ddatblygu eu hanghenion hyfforddi mewn AGChY? - A oes cysylltiadau rhwng y canlyniadau mewn AGChY â'r agenda genedlaethol, fel lles, SEF, Creu Cymru Egnïol, pontio, partneriaethau lleol, hawliau'r plentyn?

Cwestiwn Allweddol 3 – Pa mor effeithiol yw'r arwain a'r rheoli mewn Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol?	
Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arwain a'r rheoli? Gwella ansawdd • Hunanwerthuso, yn cynnwys gwrando ar y dysgwyr ac eraill; • Cynllunio a sicrhau gwelliannau; a • Cynnwys mewn rhwydweithiau o arferion proffesiynol.	
Arfer Da AGChY	**Cwestiynau i'w hystyried**
Penaethiaid ac Arweinwyr Pwnc AG: - sefydlu trefniadau monitro a hunanwerthuso sy'n gynhwysfawr, yn systematig ac yn seiliedig ar dystiolaeth uniongyrchol; - ceisio ac ystyried barn y dysgwyr, y staff ac eraill â diddordeb; - sicrhau bod gan y staff sy'n cyflwyno neu'n cefnogi AG y cymwysterau a'r profiad angenrheidiol; - cynnwys yn llawn y rhai sy'n gyfrifol am gyflwyno a chefnogi AGChY yn y broses hunanwerthuso; - llunio cynlluniau gweithredu pwnc ac ysgol gyfan yn adlewyrchu blaenoriaethau'r pwnc a phartneriaeth y cynllun AGChY; - datgan blaenoriaethu clir a gweithredu er mwyn sicrhau gwelliant; - ceisio cyllid digonol i sicrhau bod modd gweithredu ar y blaenoriaethau; - sefydlu cymunedau dysgu proffesiynol effeithiol yn yr ysgolion a ledled y CDau; a - darparu digon o dystiolaeth i ddangos bod y gweithredu wedi arwain at welliannau mesuradwy a'r gwelliannau a geisiwyd.	- A ydym yn defnyddio TGCh i gofnodi tystiolaeth o safon mewn AGChY? - A oes gan y staff y sgiliau i werthuso eu perfformiadau eu hunain ar gyfer cyflwyno AGChY o safon uchel? - A oes cyfleoedd i'r disgyblion/rhieni rannu eu barn a chodi materion am AGChY yn eu hysgol? - Sut ydych yn gweithio gyda'r staff i gyd er mwyn datgan meysydd blaenoriaeth ar gyfer eu datblygu mewn AGChY? - A yw ein gweithredoedd mewn AGChY wedi cael effaith gadarnhaol? Sut dangosir tystiolaeth o hyn? - Sut mae cymunedau dysgu proffesiynol sy'n datgan datblygiadau ar gyfer AGChY yn cael eu sefydlu mewn ysgolion a ledled y bartneriaeth? - Sut ydych chi'n datgan ac yn rhannu arfer da AGChY yn yr ysgol a ledled yr ALl?

Cwestiwn Allweddol 3 – Pa mor effeithiol yw'r arwain a'r rheoli mewn Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arwain a'r rheoli? Gwaith partneriaeth • Partneriaethau strategol; a • Cynllunio ar y cyd, adnoddau a sicrhau ansawdd.	
Arfer Da AGChY	**Cwestiynau i'w hystyried**
Penaethiaid ac Arweinwyr Pwnc AG: - gweithio gyda phartneriaethau sy'n gwella'r rhaglen AGChY ar gyfer y dysgwyr yn eu hysgolion (PIE, Ysgolion Iach, Gwasanaethau Ieuenctid, Clybiau Lleol a Chymdeithasau Chwaraeon); - sefydlu swyddogaethau a chyfrifoldebau clir gyda phartneriaid; - sicrhau bod y dysgwyr i gyd yn gallu gwneud defnydd o adnoddau dysgu priodol drwy weithio mewn partneriaeth i gyfateb gofynion y profiadau dysgu; - darparu amgylchedd addas a diogel ar gyfer addysgu, dysgu a chefnogi da ar gyfer y dysgwyr i gyd; - cyfateb adnoddau i'r blaenoriaethau datblygu sydd wedi'u datgan; - adolygu'r defnydd o adnoddau'n rheolaidd er mwyn sicrhau gwerth am arian; - cynnal asesiadau risg rheolaidd yn yr holl feysydd dysgu yn yr ystod llawn o weithgareddau dysgu; - defnyddio oedolion heb fod yn athrawon i ymestyn y profiadau dysgu mewn AGChY y tu hwnt i'r diwrnod ysgol; a - sicrhau bod teuluoedd a'r gymuned ehangach yn gallu defnyddio'r rhaglenni a'r cyfleusterau chwaraeon yn yr ysgol.	- A ydym yn ymwneud yn llawn â'r partneriaethau a all gael effaith gadarnhaol ar les ein disgyblion? - A ydym yn gweithio â'r gymuned ehangach i sicrhau'r cyfleoedd gorau posibl mewn AGChY ar gyfer yr ysgol? - A ydym yn rhoi cyfleoedd i staff ddatblygu eu gwybodaeth am yr wybodaeth a ddaw i'r amlwg am les ac AGChY? - A ydym yn annog y staff i fod yn arloesol a chreadigol wrth ddysgu gwybodaeth a sgiliau newydd i gyflwyno AGChY o safon uchel? - Sut rydym yn adlewyrchu ar arferion ac yn gwerthuso effaith y dysgu proffesiynol mewn AGChY ar ganlyniadau a lles y disgyblion?

<u>Gellir cael hyd i dystiolaeth i gefnogi'r arfer da sydd wedi'i ddatgan yn y mannau a ganlyn:</u>

- Cymariaethau ledled ysgolion y clwstwr/ ysgolion tebyg, teulu o ysgolion;
- Arweinwyr pwnc, arweinwyr partneriaeth, cydweithwyr ac ymgynghorwyr yn arsylwi gwersi;

- Asesiadau athrawon, sy'n defnyddio canlyniadau dysgu'r plant 3 i 7 oed ledled Cymru a'r disgrifiadau lefel a geir yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru 2008;
- Hunanasesiad y disgyblion a'u hasesiad o'u cyfoedion;
- Gwrando ar y dysgwyr; gwerthusiadau'r dysgwyr; holiaduron boddhad y dysgwyr;
- Cofnodion cynnydd a chyflawniad y dysgwyr; proffiliau'r dysgwyr; asesu gwybodaeth; tystiolaeth weledol o waith/cyflawniadau'r dysgwyr;
- Trefniadau pontio;
- Gwybodaeth/cofnodion a drosglwyddir i'r athro (athrawon) nesaf; gwybodaeth yng nghofrestri'r athrawon;
- Polisïau a chynlluniau: Cynllun Datblygu Ysgol; Polisïau Ysgol – Cyfleoedd Cyfartal, Amddiffyn Plant, Polisi Iechyd a Lles, Cynllun Datblygu AG, Cynllun Pontio;
- Adroddiadau arolygon blaenorol;
- Archwiliadau'r cwricwlwm; amserlenni;
- Cynlluniau gwaith – yn dangos tystiolaeth glir o weithgareddau dysgu sy'n briodol i anghenion y disgyblion hy gwahanol weithgareddau
- Cysylltiadau trawsgwricwlaidd, er enghraifft, rhwng AG ac ABaCh etc;
- Deunydd cyhoeddusrwydd y seremonïau gwobrwyo;
- Amserlen dysgu tu allan i oriau, yn dangos yr amrywiaeth o gyfleoedd; deunydd cyhoeddusrwydd;
- Cofrestri presenoldeb y dysgu tu allan i oriau;
- Canlyniadau arolygon Chwaraeon Cymru, cyfranogiad pobl ieuainc a'r ddarpariaeth AG;
- Trafodaethau a chytundebau â darparwyr cymunedol ac allanol;
- Pasbortau, portffolios tystiolaeth Campau'r Ddraig;
- Tystiolaeth o weithredu Prifysgol y Plant;
- Llysgenhadon Chwaraeon a chriw chwaraeon, defnyddio arweinwyr mewn ysgolion ac yn y gymuned;
- Nifer y disgyblion sy'n ennill cymwysterau fel arweinwyr chwaraeon lefel 1 a 2, tystysgrifau hyfforddi'r cyrff rheoli, dyfarniadau dawns;
- Tystiolaeth o sut mae'r disgyblion wedi ymwneud â chynllunio'r rhaglen allgyrsiol;
- Cofnodion y cyngor chwaraeon;
- Adolygiadau'r ALl, PIE, AGChY, Gwella Ysgol;
- Adnoddau ac offer / neilltuo y pen, yn cynnwys staff a chyfleusterau; cyllideb AGChY yr ysgol;
- Swydd-ddisgrifiadau; Pwyntiau cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu;
- Cofnodion a gweithdrefnau datblygiad proffesiynol;
- Yr amgylchedd dysgu, hysbysfyrddau'r ysgol, y buarth chwarae, yr ystafell ddosbarth;
- Cylchlythyrau'r ysgol; ymgynghori â'r rhieni;
- Gwasanaethau boreol sy'n cydnabod ac yn hybu hunan-barch y disgyblion.